CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 16 MEDI 2014

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W Roy Owen

Cynghorwyr
B Owen, W L Davies, W T Owen, I C Thomas, H W Roberts, A Bohana, M Thomas
E Lovgreen, E R Hughes, T Thomas, K Williams

1. Ymddiheuriadau

H Edwards, C Williams, G Thomas, A Hopcyn

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Safodd pawb am funud fel arwydd o barch wrth nodi marwolaeth Cyng A Kirk a hefyd mam y Faeres

- 15 Medi hebrwng criw o'r Almaen (sydd wedi gefeillio a Cyngor Bangor) i'r Castell

3. Datgan Buddiant Personol

Cynllunio – Cyng W T Owen

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Cynllunio ychwanegol a pris coeden Nadolig

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 2 Medi 2014
ii. Cyngor 9 Medi 2014

Penderfynwyd

i. Derbyn fel rhai Cywir
ii. Derbyn fel rhai cywir a cytuno ar cytundeb o 5 mlynedd i'r cwmni llwyddiannus. Pan ddaw yr holiadur anfon allan i bawb a'r grŵp oedd yn gyfrifol am y ddogfen tendr (Cyng T Thomas, Cyng G Thomas a Cyng H W Roberts) i ystyried y sylwadau efo'r clerc

6. **Ceisiadau Cynllunio**

I ystyried y ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd

1. C14/0782/14/CR **Cytuno**
Cais ol-weithredol am tynnu grisiau mewnol, gosod ystafell ymolchi a chegin

8 Rhes Segontiwm, Caernarfon

****

2. C14/0807/14/LL **Cytuno**
Estyniad unllawr i ochr yr annedd/

24 Cae Gwyn Caernarfon

****

3. C14/0833/14/LL **Cytuno**
Estyniadau a newidiadau i'r uned ddiwydiannol presennol er mwyn creu derbynfa newydd, swyddfa gyfarfod, man parcio mynedfa newydd, storfa oer a man prosesu cig

Ready Foods Ltd., Uned 3,
Lon Cae Ffynnon,Ystad Ddiwydiannol Cibyn
Caernarfon

****

4. C14/0742/14/LL **Gwrthod ar sail Iechyd a**
Creu man parcio ar lecyn o dir/ **Diogelwch fod y groesfan mor agos**

Ysgol Jos Bach, Lon Parc, Caernarfon

****

5. C14/0527/14/AM **Cytuno**
Codi tŷ a gwelliannu i'r fynedfa bresennol

Tir ger/Land adjoining, Ffordd
Y Gogledd/North Road, Caernarfon

****

6. C14/0854/14/CR **Cytuno**
Dymchwel estyniad tri llawr presennol, codi estyniadau ac ail leoli 3 carafán statig yn lle 4

Coed Helen Caravan Park, Coed Helen Road, Caernarfon

*****

10. Ymateb Papur Dre

Eglurodd y clerc am gam ddealltwriaeth nad oedd Cyng E Lovgreen yn meddwl mai ateb yn swyddogol oedd hi dim ond ceisio helpu- ond diolchodd i Cyng E Lovgreen am arweiniad ac awgrymiadau gan egluro bod y clerc hefyd wedi ceisio cysylltu a Glyn Tomos

Penderfynwyd

Diolch I Cyng E Lovgreen gan ymddiheuro am unrhyw ddryswch. Symud ymlaen trwy dynnu sylw i wahanol stafell ar y tro a gofyn wrth bobl lleol ymateb efo hen atgofion/lluniau

11. Llythyr Dafydd Jones

Par: Lionel Rees

Penderfynwyd

Y Maer i osod torch ger y plac eleni yn y clwb hwylio ac yna y pwyllgor adloniant i ystyried ffordd o nodi yn y dyfodol ac efallai gofyn am stori yn Papur Dre

12. Rhaglen Hyfforddiant Unllais

Copi llawn ar y bwrdd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth unrhyw un sydd yn dymuno mynychu i adael i'r clerc wybod

13.Cwestiynau

Dim

14. Coeden Nadolig

Roedd rhaid dileu y rheolau sefydlog cyn trafod y mater yma Cafwyd eglurhad gan y clerc bod y cynnig o goeden yma yn sylweddol llai eleni gan bod cwsmer arall wedi or archebu

Penderfynwyd

Symud ymlaen efo'r goeden yma gan Blachere am eleni a chwilio am rhywbeth gwell na safety barriers o'i chwmpas hi

Gorffennodd y cyfarfod am 6.45

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....